**Cofnodion Bwrdd TrC**

**19 Hydref 2023**

09:30 – 16:00

Lleoliad – Llys Cadwyn

---

**Yn bresennol**

Scott Waddington (Cadeirydd), Heather Clash, Nicola Kemmery, Vernon Everitt, Alison Noon-Jones, Sarah Howells, Alun Bowen a James Price.

Hefyd yn bresennol: Peter McDonald (Llywodraeth Cymru), Alan McCarthy (Unite) (eitemau 1-4) a Jeremy Morgan.

**<u>Rhan A – Cyfarfod y Bwrdd Llawn</u>**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Cafodd Julian Edwards ei groesawu gan y Cadeirydd (Cyfarwyddwr Anweithredol Cysylltiol ar Fwrdd Rheilffyrdd TrC) fel sylwedydd i'r cyfarfod.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Andrew Morgan (Sylwedydd llywodraeth leol).

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datganodd fod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**

Dim.

**1d. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**

Derbyniwyd bod cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC ar 21 Medi 2023 yn gofnod gwir a chywir. Nodwyd y log camau gweithredu.

**1e. Sylw i Ddiogelwch**

Tynnwyd sylw'r Bwrdd at weithredwr trenau treftadaeth a gafodd ei erlyn ar ôl i wirfoddolwr syrthio o ben cerbyd. Cafodd Cwmni Rheilffordd Gwili Cyf ddirwy o £18,000 am dorri rheoliad 6(3) o'r Rheoliadau Gweithio mewn Mannau Uchel, ac roedd felly'n euog o drosedd yn groes i adran 33(1)(c) o'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. Trafododd y Bwrdd yr angen i sicrhau bod tasgau penodol yn cael eu cynllunio, eu rheoli a'u goruchwylio'n briodol.

Cafodd y Bwrdd wybod hefyd am ddigwyddiad difrifol iawn yng nghanol Manceinion pan gafodd person ei ladd ar ôl i fws daro drwy blaen siop. Nododd y Bwrdd pa mor fregus oedd diogelwch bysiau a chafodd wybod bod TrC yn datblygu strategaeth diogelwch ar gyfer bysiau.

**1f. Sylw i Gwsmeriaid**

Cafodd y Bwrdd wybod am brofiad cwsmer diweddar pan wnaeth ymwelydd a oedd yn defnyddio gwasanaethau TrC glicio'r dyddiad anghywir ar ei e-docyn. Treuliodd y goruchwyliwr lawer iawn o amser gyda'r unigolyn, gan ddarparu gwasanaeth rhagorol.

Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod y defnydd o systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid. Dylid ystyried systemau o'r fath fel modd o gyflawni diben ac fel galluogwr yn unig. Yr hyn sy'n bwysig iawn yw pensaernïaeth sylfaenol system a sut mae'n cael ei defnyddio i wella profiad y cwsmer.

**2. Perfformiad diogelwch**

Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y datblygiadau iechyd, diogelwch a llesiant canlynol:

- Mae'r risg o bycsennau (*bed bugs*) yn cael ei chynnwys mewn trefniadau glanhau trenau.
- Bu cyfarfod diweddar gyda Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd lle cafodd TrC rai negeseuon cadarnhaol ynghylch yr ymateb i'r hysbysiad gwella. Roedd y Bwrdd yn croesawu'r ffaith bod y Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd bellach yn gweld TrC fel cwmni sy'n arwain y diwydiant mewn sawl maes, gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu â chwmnïau trên eraill.
- Mae Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd wedi awdurdodi system rheoli diogelwch Rheilffyrdd TrC dros y pum mlynedd nesaf.
- Y sgôr mynegai wedi'i bwysoli ar gyfer marwolaethau a adroddwyd ar y cyd ar gyfer Cyfnod y Rheilffyrdd 06 oedd 0.13, yn is na'r ffigur 0.17 a ragwelwyd. Mae'r cyfartaledd blynyddol sy'n symud o 0.20 yn dal yn uwch na'r hyn a ragwelwyd.
- Mae'r Tîm Risg a Chydnerthu yng nghamau olaf y trafodaethau gyda'r Coleg Cynllunio at Argyfyngau ynghylch atebion 'Rheoli Cymhwysedd'. Y bwriad yw sicrhau bod proffil costio llawn ac achos busnes wedi'i gwblhau ar waith erbyn diwedd mis Hydref 2023. Cafodd y Bwrdd hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiad cynllunio at argyfyngau mawr a gynhaliwyd ddoe i gynllunio ar gyfer toriad pŵer cenedlaethol.
- Mae diogelwch ar draws grŵp TrC yn cael ei ganoli gan arwain at arbedion effeithlonrwydd. Roedd y Bwrdd yn awyddus i ddeall gwariant ar ddiogelwch. Mae'r costau rhwng £16m a £17m y flwyddyn a gofynnodd y Bwrdd a oes modd gwneud rhagor o arbedion effeithlonrwydd ac a oes modd cyfuno hyn â diogelu refeniw. [Action **Leyton Powell]**.

**3. Cofrestr risg**

[redacted]

Mae adolygiad o risgiau yn erbyn datganiadau parodrwydd i dderbyn risg TrC wedi'i gwblhau ac mae'n dangos aliniad cadarnhaol.

Cadarnhawyd y byddai cyllid 2024/25 ar Gofrestr Risg Strategol y mis nesaf.

Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.

**4. Diweddariad strategol**

**4a. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Roedd perfformiad y rheilffyrdd wedi gwella ers y cyfarfod diwethaf ond mae'r gostyngiad mewn boddhad cwsmeriaid wedi bod yn siomedig. Gofynnwyd i Marie Daly ymchwilio i'r mater **[Action Marie Daly].**

Roedd ymgysylltu cadarnhaol wedi bod yn ddiweddar â Llywodraeth Cymru, gyda thrafodaethau'n canolbwyntio ar yr angen i uwch dîm TrC ganolbwyntio mwy ar gyflawni a chynorthwyo gyda'r gwaith o lunio polisïau strategol Llywodraeth Cymru. Trafododd y Bwrdd y bwlch sy'n bodoli o ran profiad o ddatblygu polisi yn uwch dîm TrC a phwysleisiodd yr angen i sicrhau eglurder parhaus ynghylch cyfrifoldebau TrC a Llywodraeth Cymru.

Roedd perfformiad y rheilffyrdd wedi parhau i wella dros y cyfnod rheilffordd diwethaf, ond roedd darparu cerbydau yn heriol. Yn benodol, mae problemau llinell y Gororau yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl i'w datrys.

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am straen o ran capasiti sy'n Depo Caer. Mae cynllun ar waith i dynnu trenau Class 175 allan o wasanaeth a fydd yn caniatáu i CAF ganolbwyntio'n llwyr ar drenau Class 197. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i gyflawni defnyddio cerbydau MKIV pump a chwe char. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda DB Cargo i wella'r contract ar gyfer locomotifau MKIV ar gyfer y ddau barti. Mae'r nifer o drenau Class 197 sy'n cael eu dosbarthu wedi gostwng rhywfaint ond mae'n parhau i fod o fewn y cynllun. Mae 32 o'r 77 uned wedi cael eu danfon. Mae'r mater ynghylch teitlau injans ar gyfer trenau Class 197 yn agos at gael ei gwblhau, ond maent yn parhau i fod yn risg nes bydd y mater wedi ei gwblhau.

Hefyd cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o fasnachfreinio rheilffyrdd wrth ymdrin â materion bysiau, a sicrhau bod uwch reolwyr yn ymrwymo i dreulio mwy o amser ar fasnachfreinio bysiau.
- Datblygiad parhaus TrC 2.0.
- Adborth cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ar y Prosiect Bullseye i ddiwygio'r amserlen i gyd-fynd â phatrymau a niferoedd teithwyr ar ôl Covid.
- Strategaeth prisiau ac opsiynau ar gyfer y dyfodol.
- Rhaglen Gwelliannau Caerdydd Canolog. Gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad ar gyfer y cyfarfod nesaf **[Action Alexia Course]** ac ymarfer gwersi a ddysgwyd wedi'i oruchwylio gan y Pwyllgor Prosiectau Mawr.

Gadawodd Alan McCarthy y cyfarfod.

**4b. Cyllid a llywodraethu**

Nododd y Bwrdd y cyfrifon rheoli ar gyfer mis Medi 2023 a chawsant y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Roedd gwariant refeniw yn ystod y mis yn ôl y trefniant yn gyffredinol, ac roedd unrhyw newidiadau'n ganlyniad i gyflwyno gwariant fesul cam. Roedd tanwariant o ran gwariant cyfalaf o ganlyniad i gyflwyno gwariant fesul cam.
- Roedd y gwaith o gytuno ar gyllideb 2024/25 gyda Llywodraeth Cymru wedi dechrau, gan ganolbwyntio ar sicrhau arbedion o 5% o 2023/24 ar gyfer staffio heb adnoddau mewn gwasanaethau canolog.
- Bydd gofyn i'r Bwrdd adolygu'r Erthyglau Cymdeithasu diwygiedig a'r Ddogfen Fframwaith newydd y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.
- Cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth Gwrth-dwyll, y cynllun gweithredu a'r cynllun dysgu a datblygu sy'n cwmpasu grŵp cyfan TrC, polisi gwrth-dwyll newydd sy'n ymdrin â thwyll, chwythu'r chwiban, gwrthdaro rhwng buddiannau, rhoddion, lletygarwch a fframwaith ymchwilio.
- Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi'r gorau i'r diwygiadau arfaethedig i Lywodraethu Corfforaethol y DU.
- Bydd system gyllid Rheilffyrdd TrC yn cyrraedd diwedd ei hoes yn 2027/2028 gyda chynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer system newydd. Amcangyfrifir y bydd y gost oddeutu £1.5 miliwn.

- Dal i aros am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch ffeibr ar Linellau Craidd y Cymoedd. Gofynnodd y Bwrdd am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a oes cynnydd wedi'i wneud o ran dod o hyd i unigolyn i arwain y gwaith **[Action Heather Clash].**

<u>**Rhan B – Sesiwn diweddariad gweithredol**</u>

Ymunodd Marie Daley â'r cyfarfod

**5. Cynllun Busnes a Dangosyddion Perfformiad Allweddol.**

Ymunodd Zoe Smith-Doe â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gyflawni yn erbyn cerrig milltir y Cynllun Busnes. Ar hyn o bryd, mae ychydig o dan 10% o gerrig milltir mewn perygl o beidio â chael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Nododd y Bwrdd y diweddariad a dywedodd fod y fframwaith ar gyfer adrodd yn gwella.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad DPA corfforaethol chwarterol, gan nodi bod data sylfaenol yn dal i gael eu casglu ar gyfer nifer o'r dangosyddion.

Gadawodd Zoe Smith-Doe y cyfarfod.

**6. Swyddfeydd tocynnau**

Ystyriodd y Bwrdd bapur i adolygu a rhoi newidiadau ar waith yn 42 swyddfa docynnau rheilffordd TrC a saith swyddfa docynnau asiant. [redacted] Roedd y Bwrdd hefyd wedi cymeradwyo gweithredu unrhyw newidiadau yn dilyn hynny ar sail datblygiad cadarn pob opsiwn a rhagolygon unigol ar gyfer newid. Mae hyn yn cynnwys dechrau ymgynghori â phartneriaid yn yr Undeb a chydweithwyr yn TrC i adeiladu atebion fesul gorsaf o'r gwaelod i fyny. Nododd y Bwrdd mai dim ond mandad i ddechrau trafodaethau gyda'r Undebau fyddai cymeradwyo'r cynnig.

Croesawodd y Bwrdd y cyfle clir i greu swyddfa docynnau sy'n unigryw ond yn briodol Gymreig, sy'n cyd-fynd ag ethos y bartneriaeth gymdeithasol, sy'n darparu profiad i gwsmeriaid y gall TrC fod yn falch ohono, ac sy'n sicrhau elw masnachol yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Pwysleisiodd y Bwrdd yr angen i ddysgu gwersi o ymarfer diweddar y Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd yn y swyddfa docynnau yn Lloegr, a bod nod y cynnig yn ymwneud â chynyddu refeniw a pheidio â thorri costau na swyddi.

**7. Diweddariad ar Linellau Craidd y Cymoedd**

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prif feysydd datblygu yn rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd:

- Costau rhaglenni ac effeithiau chwyddiant.
- Monitro a llywodraethu.
- Comisiynu Merthyr ac Aberdâr wedi'i gwblhau.
- Bod materion yn cael eu rheoli ynghylch mynediad i'r gwasanaeth, gyda thrafodaethau parhaus gydag AIW.

[redacted]

[redacted]

[redacted]

**8. TrC 2.0**

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gynllun gwaith sydd wedi'i ddylunio i weithredu fel pwynt ffocws ar gyfer rheoli y newid busnes sy'n ofynnol ar gyfer datblygu "TrC 2.0". Mae'r cynllun yn alinio mentrau newid sefydliadol mawr presennol tuag at ddiben cyffredin, ac yn mynd i'r afael â'r bylchau o ran parodrwydd busnes ar gyfer masnachfreinio bysiau. Cynnig i symud hyn i'r busnes drwy weithredu dull ffrwd waith.

Nododd y Bwrdd y cynllun a diddordeb y Dirprwy Weinidog yn y rhaglen hon. Nododd y Bwrdd hefyd bod diffyg cysoni telerau ac amodau ar draws grŵp cwmnïau TrC yn rhwystr posibl i weithio ar draws dulliau teithio.

**12. Is-bwyllgorau**

Roedd cyfarfod diweddar y Pwyllgor Prosiectau Mawr yn ystyried masnachfreinio bysiau, Cyfnewidfa Caerdydd, Cross Rail Caerdydd, a cherbydau rheilffyrdd.

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles mis Medi a oedd yn canolbwyntio ar gynnydd yn erbyn cynlluniau a phrosiectau, atal hunanladdiad, gwasanaethau cymorth iechyd galwedigaethol, paratoi ar gyfer y gaeaf a rheoli llystyfiant, ac ymddygiad cwsmeriaid gan gynnwys llithro, baglu a syrthio.

Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg diweddar y materion hyn: rheoli contractau, rheolaethau mewnol, archwilio mewnol a gwrth-dwyll.

Canolbwyntiodd y Pwyllgor Pobl ar TrC 2.0, y Cynllun Pobl drafft, gwrth-hiliaeth, dangosyddion perfformiad allweddol integredig; diffinio amcanion clyfar; a'r prosiect alinio gwobrau.

**13 Is-fyrddau**

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfodydd bwrdd diweddar Pullman a Rheilffyrdd TrC.

**14. Y Bwrdd Llywio**

Roedd cyfarfod diweddar y Bwrdd Llywio wedi ystyried cyfarfodydd gyda'r Dirprwy Weinidog, trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, cyllideb 2024/25 TrC, cytundeb fframwaith Llywodraeth Cymru / TrC, adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol, yr adroddiad risg a dangosyddion perfformiad allweddol.

**15. Sesiwn gyfrinachol**

Cafodd y Bwrdd sesiwn gyfrinachol.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben a diolchodd i bawb am eu cyfraniadau.